

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hyrwyddwr/wraig Cyflogaeth Pobl Anabl

Gwybodaeth am 3 swydd ar draws Cymru a
sut i wneud cais



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan
Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o
'Recriwtio Hyrwyddwr/wraig Cyflogaeth Pobl Anabl'.

Chwefror 2020

Hyrwyddwr/wraig Cyflogaeth Pobl Anabl

Gwybodaeth am y swydd



Mae gennym swydd wag ar gyfer
Hyrwyddwr/wraig Cyflogaeth Pobl Anabl.



Fe fydd y tâl fyddwch chi'n ei gael yr un fath ag y mae **Uwch Swyddog Gweithredol** yn ei gael.



Gwaith i **Lywodraeth Cymru** ydy hwn mewn fîm o'r enw **Adran Dyfodol Ffyniannus, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.**



Mae'r swydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2020.



Mae'n swydd am 1 flwyddyn.

Fe fydd yn gorffen ar 31 Mawrth 2021.



Mae am 20 awr yr wytynos.



Rydyn ni'n recriwtio 3 o bobl i weithio ar draws ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a De Orllewin Cymru
- De Ddwyrain Cymru



Fe fydd y bobl sydd yn cael y swyddi yma yn gweithio gyda Hyrwyddwyr eraill.



Y gwaith fydd siarad i fyny dros bobl anabl am gyflogaeth.



Fe fyddan nhw'n siarad am y **model cymdeithasol** o anabledd. Mae hyn yn dweud bod y ffordd mae cymdeithas yn gweithio yn gallu stopio pobl anabl rhag gwneud y pethau mae pobl eraill yn eu gwneud.



Fe fydd y bobl yn siarad gyda busnesau ar draws Cymru i ddweud wrthyn nhw am y sgiliau sydd gan bobl anabl.



Fe fyddan nhw'n cefnogi busnesau i recriwtio pobl anabl.



Dim ond pobl anabl rydyn ni'n eu recriwtio ar gyfer y swyddi yma.

Sut i wneud cais

Dywedwch wrthyn ni:



- pam fydddech chi'n hoffi gwneud cais am y swydd



- pam ydych chin meddwl y bydddech chi'n gallu gwneud y swydd yn dda



- dywedwch wrthyn ni am eich sgiliau a'ch profiad.



- dywedwch wrthyn ni sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn ateb y **disgrifiad o'r swydd**.



Ysgrifennwch hyn ar hyd at 2 ddalen lawn o bapur ar y ffurflen **Mynegi Diddordeb**.



Os ydych chi eisiau rydych chi'n gallu gwneud cais am y swydd drwy anfon ffilm inni. Fe fyddwch yn siarad i'r camera i wneud hyn.



Ac e-bostiwch i: melanie.james@gov.wales



Anfonwch yn ôl erbyn **5pm** ar 3 Mawrth 2020.

Beth sydd yn digwydd nesaf



Fe fyddwn ni'n anfon e-bost i chi yn dweud wrthy ch chi os ydyn ni'n mynd i roi cyfweiliad i chi.



Ewch i'r wefan yma i weld lle mae'r cyfweiliadau yn digwydd:

<https://businesswales.gov.wales/regional-centres>



Rhowch wybod inni os gwelwch yn dda am unrhyw gefnogaeth rydych chi ei hangen i wneud cais neu ar gyfer cyfweiliad oherwydd eich nam.



Rydyn ni eisiau gwneud cais am y swyddi yma yn deg i bawb.